



CYMDEITHAS CYFIEITHWYR CYMRU

Adroddiad ar weithgareddau 2013-14

Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru
Bryn Menai, Ffordd Caergybi, Bangor, LL57 2JA
Ffôn: 01248 371839
Ebost: swyddfa@cyfieithwycymru.org.uk
Gwefan: www.cyfieithwycymru.org.uk

Cofrestrwyd yng Nghymru: 4741023

Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru

Adroddiad ar weithgareddau 2013 - 14

Cyflwyniad

Prif nod y Gymdeithas yn ystod y flwyddyn oedd parhau i gynnal a datblygu safonau cyfieithu proffesiynol a gwella, cynyddu a datblygu sgiliau a gwybodaeth cyfieithwyr.

Gwnaed hyn mewn sawl dull a modd, gan gynnwys:

- cynyddu a datblygu ein haelodaeth i gynrychioli mwy a mwy o gyfieithwyr;
- cynnal arholiadau aelodaeth cyfieithu a chyfieithu ar y pryd;
- hybu datblygiad proffesiynol cyfieithwyr, trwy drefnu rhaglen amrywiol o weithdai a dechrau datblygu cynllun Datblygu Proffesiynol Parhaus;
- cynnal perthynas â sefydliadau Addysg Uwch, yn enwedig y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, a buddsoddi mewn ymchwil academiaidd er lles a datblygiad y proffesiwn/diwydiant cyfieithu;
- cynnal a meithrin ein cysylltiadau â chyrrff a sefydliadau eraill;
- hyrwyddo a marchnata'r Gymdeithas a'i haelodau.

Cafodd rhaglen waith y Gymdeithas ei llywio gan y cynllun busnes 3-blynedd hyd at 31 Mawrth 2016. Ar sail y cynllun busnes y mae Comisiynydd y Gymraeg yn ariannu gweithgareddau rheoleiddio'r Gymdeithas.

Rhydd yr adroddiad hwn drosolwg o weithgareddau 2013-14; crynodeb o'r sefyllfa ariannol; a gwybodaeth am drefniadau llywodraethu'r Gymdeithas.

Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys gair o ddiolch ac o werthfawrogiad i Berwyn Prys Jones, a ymddeolodd fel Cadeirydd y Gymdeithas ym mis Medi 2013 wedi cyfnod o dros chwarter canrif yn y swydd.



Diolch am gyfnod o wasanaeth clodwiw

Oes yna rywun o blith ei haelodau erbyn hyn sy'n cofio Berwyn Prys Jones yn dod yn Gadeirydd y Gymdeithas hon? Dydw i ddim. A phwy oedd y Cadeirydd blaenorol? Oedd yna Gadeirydd blaenorol? Ta waeth am hynny, mae'n siwr fod yr aelodau i gyd yn ymwybodol iawn mai Berwyn oedd y Cadeirydd am dros chwarter canrif tan iddo roi'r gorau i'r swydd yn 2013. Penderfynodd bryd hynny ei fod am lacio'r gefynnau a rhoi mwy o amser i rai o'i hoff ddiddordebau, pethau fel "dilyn trenau" – ond nid yn llythrennol, wrth reswm!

Mae'n siŵr mai gor-ddweud fyddai dyfynnu adnoddau agoriadol Genesis a dweud bod y Gymdeithas "yn afluniaidd a gwag" yn y cyfnod cynnar, oherwydd doedd dim staff cyflogedig na swyddfa fel y cyfryw. I bobl fel Megan Tomos a Nia Wyn Jones mae'r diolch am sicrhau bod aelodaeth wedi'i chreu a chymdeithas wedi datblygu bryd hynny.

Roedd Berwyn yn addas iawn i fod yn Gadeirydd, oherwydd roedd ymhlith y bobl gyntaf yng Nghymru i gael eu cyflogi fel cyfieithwyr Cymraeg. Felly, bwriodd ei brentisiaeth fel cyfieithydd yn ystod y cyfnod pan oedd yn rhaid dysgu'r grefft o gyfieithu heb gymorth llawlyfrau na rhestrï termau, na llawer o gefnogaeth o'r tu allan ychwaith. Dysgu wrth draed y "cedyrn" fyddai cyfieithwyr y cyfnod, ac arbenigwyr ar wahanol agweddau ar yr iaith Gymraeg oedd y "cedyrn" hynny, pobl fel T. J. Morgan, Glanmor Williams, Dafydd Jenkins, Mati Rees, a swyddogion awdurdodau lleol fel R. T. D. Williams ac Alun R. Edwards.

Mae Berwyn wrth reddf hefyd yn "fachan cymen", hynny yw, yn fanwl ac yn ofalus iawn ym mhopeth mae'n ei wneud: byddai'n cadw rhestrï o bethau er mwyn bod yn gyson bob amser. At hynny, dyw e ddim yn ofni dweud pan fydd yn anghytuno, ac fel rheol gall ategu ei farn â ffeithiau neu ddyfyniadau. Yr union "fachan", felly, i fod wrth yr llyw mewn cyfnod o ymffurfio.

Mae'n siŵr y gall pob un o staff a swyddogion y Gymdeithas dros y blynyddoedd, ac aelodau'r gwahanol baneli a'r pwyllgorau, dystio i fanylder a gofal a chefnogaeth Berwyn ym mhopeth y mae galw ar Gadeirydd ei wneud, yn enwedig Cadeirydd ar Gymdeithas sydd erbyn hyn wedi dod yn gyfrifol am drafod arian cyhoeddus sylweddol a bod yn atebol am hynny. Ond elfen hanfodol bwysig yn hyn i gyd yw sicrhau naws cyfeillgar, hapus ymhlith yr holl aelodau a phawb sy'n gweithio dros y Gymdeithas, ac mae cymeriad hwyliog Berwyn yn golygu bod hynny wedi bod yn amlwg bob amser.

Er ei fod wedi gollwng gafael ar yr awenau, mae Berwyn yn dal yn aelod ffyddlon a gweithgar, a diolch am hynny waeth mae ganddo stôr o brofiad i'r swyddogion allu troi ati yn y dyfodol. Diolch, Berwyn, ar ran pawb sy'n ymwneud â Chymdeithas Cyfieithwyr Cymru.

Mary Jones, Cadeirydd



1. Aelodaeth y Gymdeithas

Ar 31 Mawrth 2014, roedd gan y Gymdeithas 348 o aelodau unigol (o'u cymharu â 354 ar 31 Mawrth 2013), fel a ganlyn:

Aelodau Cyflawn - 194

Aelodau Sylfaenol - 140

Aelodau Cyfieithu ar y Pryd - 70 (14)*

* Y ffigwr rhwng cromfachau yw nifer yr aelodau sy'n aelodau CAP yn unig. Mae'r lleill naill ai'n aelodau Cyflawn (43) ynteu'n aelodau Sylfaenol (13) hefyd.

Bu cynnydd eto yn nifer yr aelodau Cyflawn. Dyma'r nifer mwyaf o aelodau Cyflawn yn hanes y Gymdeithas, ac ni fu bwlch mor fawr rhwng niferoedd yr aelodau Cyflawn a Sylfaenol erioed o'r blaen.

Roedd gennym 8 Aelod Corfforaethol a 7 Aelod Sefydliadol.

2. Cynnal arholiadau aelodaeth cyfieithu a chyfieithu ar y pryd

Penderfynwyd peidio â chynnal **Arholiadau Aelodaeth Testun** ym mis Ebrill 2013 fel y bwriadwyd oherwydd y sefyllfa ariannol ansicr a wynebai'r Gymdeithas ar y pryd yn sgil y trafodaethau â Chomisiynydd y Gymraeg.

Un rownd yn unig o arholiadau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn

Cyfanswm yr holl ymgeiswyr *	51	
	Ymgeiswyr	Llwyddo
Cyflawn *	33	18
Papur 1 - i'r Gymraeg	26	7
Papur 2 - i'r Saesneg	13	11
Sylfaenol *	18	8
Papur 1 - i'r Gymraeg	16	3
Papur 2 - i'r Saesneg	7	6

* Safodd rhai ymgeiswyr y ddau bapur

Parhaodd y duedd a welwyd gyntaf ym mis Hydref 2011 o gael mwy o ymgeiswyr yn sefyll yr arholiadau Cyflawn na'r rhai Sylfaenol. Dangosai hynny awydd cynyddol ymhlith cyfieithwyr i gyrraedd safon wirioneddol broffesiynol yn eu gwaith. Mae hefyd yn arwydd o ymdrechion y Gymdeithas i fynnu mai Aelodau Cyflawn ddylai gael eu defnyddio gan gyrrff a sefydliadau.



Braf iawn oedd gweld mwyafrif llethol yr ymgeiswyr yn yr **arholiadau Cyflawn** yn llwyddo i gyrraedd y safon angenrheidiol, ac yn darparu enghreifftiau lawer o gyfieithu deallus a gloyw. Wedi dweud hynny, yn anffodus gwelwyd bod yr ymgeiswyr aflwyddiannus yn cael trafferth gyda phob un o'r pedair elfen sy'n cael eu defnyddio fel meini prawf (ystyr, cywair, cystrawen a chywirdeb). Rhaid tybio, felly, bod angen cryn dipyn mwy o brofiad a hyfforddiant ar nifer ohonynt cyn sefyll arholiad ar y lefel hon. Gellid tybio bod yma nifer sy'n gallu ysgrifennu Cymraeg yn ddigon graenus, ond sydd heb ddysgu crefft cyfieithu, h.y. mae angen iddynt fedru cyfleu union neges y gwreiddiol, yn hytrach na mynd ati i gyfieithu heb roi sylw digon manwl i'r testun sydd o'u blaen.

Gosodwyd darnau oedd yn fwriadol wrthgyferbyniol ar gyfer yr arholiadau Cyflawn, un ohonynt ym mhob papur, o bosib, dipyn yn fwy cyfarwydd ei arddull i gyfieithwyr profiadol, gan ei fod yn debycach i'r math o waith y mae'n rhaid iddynt ymdrin ag ef o ddydd i ddydd. Nid yw'n syndod, felly, bod mwyafrif yr ymgeiswyr wedi cael mwy o drafferth gyda'r darn anghyfarwydd o ran arddull. Ar y lefel hon, mae disgwyl i gyfieithydd fedru ymdopi â chyfleu pob math o destunau Saesneg mewn Cymraeg cywir, naturiol, ac fel arall.

Yn yr **arholiadau Sylfaenol**, er bod rhai pethau da i'w canfod ym mwyafrif y sgriptiau a gyflwynwyd, boddhaol oedd y gwaith drwyddi draw, ac ni lwyddodd yr un ymgeisydd i sicrhau gradd 1 ym mhob elfen.

Roedd y darnau a osodwyd, er eu bod yn cynnwys digon o elfennau heriol i fod yn addas ar gyfer arholiad, yn fwriadol yn ceisio sicrhau nad oedd y prawf yn tynnu cyfieithwyr ar y lefel hon allan o'u dyfnder. Siom, felly, oedd gweld lleiafrif mor fach yn llwyddo i gyflwyno cyfieithiad boddhaol, yn enwedig gan fod cynifer yn cael y fath drafferth i gyfleu ystyr y gwreiddiol yn gywir.

Yn gyffredinol, dylai ymgeiswyr fanteisio ar bob cyfle i ddatblygu eu sgiliau cyfieithu a gloywi eu sgiliau iaith, a dysgu trosi'r testun gwreiddiol yn fanwl gywir.

Nid oedd neb yn deilwng o **Wobr Goffa Wil Petherbridge** yn 2013. Cyflwynir Gwobr Goffa Wil Petherbridge – er cof am gyn-Ysgrifennydd y Gymdeithas ac arloeswr ym myd cyfieithu yng Nghymru – i'r ymgeisydd mwyaf addawol am Aelodaeth Sylfaenol, cyfieithu i'r Gymraeg, os bernir bod teilyngdod.

Yn unig **Brawf CAP** y flwyddyn, ym mis Ionawr 2014, a gynhaliwyd mewn stiwdios sain proffesiynol yng Nghaerdydd a'r Groeslon, cafwyd 6 ymgeisydd a llwyddodd 3 ohonynt. Er nad oedd y safon cystal, at ei gilydd, â'r hyn a welwyd ym mhroffion y gorffennol, roedd y goreuon yn cyfieithu'n eglur, yn gywir ac yn gyflawn gan bwysleisio'n ddeallus a defnyddio cystrawennau ac idiomau priodol yn yr iaith darged. Y prif wendidau oedd ansicrwydd ynghylch cystrawen a chywair ac idiom, wrth i lawer o'r rhai aflwyddiannus ddefnyddio cystrawennau'r frawddeg Gymraeg yn eu Saesneg a chyfieithu idiomau'n llythrennol. Mae hynny'n pwysleisio bod angen iddynt wrando ar Saesneg o safon.



3. Hybu datblygiad proffesiynol

Trefnwyd rhaglen amrywiol o weithgareddau i hybu datblygiad proffesiynol cyfieithwyr, a oedd yn cynnwys cynhadledd, gweithdai, yr e-weithdy cyfieithu a'r Ymarfer CAP. Mae nifer fawr o gyfieithwyr yn ystyried bod y cyfleoedd datblygiad proffesiynol a hyfforddiant rheolaidd a gynigir gan y Gymdeithas yn hynod o werthfawr ac yn un o gryfderau'r Gymdeithas.

Elwodd 181 o unigolion o'r gweithgareddau hyn a chafwyd 268 o gofrestriadau. Roedd 80 o'r unigolion hyn yn aelodau o'r Gymdeithas. O'r gweddill, roedd y rhan fwyaf yn gweithio fel cyfieithwyr i lywodraeth ganolog, i awdurdodau lleol, y sector addysg neu sefydliadau cyhoeddus eraill. Mae hynny'n arwydd fod y sefydliadau hynny'n gweld gwerth yn y ddarpariaeth arbennig a phwysig hon gan y Gymdeithas i hwyluso datblygiad proffesiynol eu staff. Y cam nesaf fydd annog y cyfieithwyr hynny i ymaelodi yn y Gymdeithas.

Trefnwyd 7 **gweithdy wyneb-yn-wyneb** yn ystod y flwyddyn. Gan ddilyn y patrwm a fabwysiadwyd ers sawl blwyddyn, cynhaliwyd y rhan fwyaf ohonynt mewn mwy nag un lleoliad ar hyd a lled Cymru (gan gynnwys Bangor, Caernarfon, Aberystwyth, Llanbedr Pont Steffan, Abertawe a Chaerdydd), er mwyn eu gwneud mor hygyrch â phosib i gyfieithwyr ym mhob rhan o Gymru. Roedd pynciau'r gweithdai'n cynnwys: 'Golygu'r Gwallau Mân' (tiwtor - Rhiannon Ifans), 'Cysondeb, cydlynad, ergyd' (tiwtor: Meg Elis), 'I speak the two spokes' (tiwtor: Berwyn Prys Jones), 'Datblygiad a defnyddio cyfieithu peiranyddol' (tiwtoriaid: Terence Lewis MITI a staff Cynulliad Cenedlaethol Cymru) a 'Techneg Llais – CAP' (tiwtor - Ann Llwyd). Ar y cyfan, cafwyd ymateb rhagorol i'r gweithdai, er y bu'n rhaid canslo ambell sesiwn.

Ym mis Medi 2013 daeth 68 i Neuadd Reichel ym Mhrifysgol Bangor ar gyfer **cynhadledd y Gymdeithas**, 'Gwella'r Gwallau', y cyntaf i ni ei chynnal ers tair blynedd. Roedd trafodaethau'r gynhadledd yn ymdrin â gwallau cyffredin a welir wrth gyfieithu, defnyddio'r cywair a'r gystrawen briodol, pwysigrwydd defnyddio termau safonol, a chyfathrebu clir wrth gyfieithu. Cafwyd cyflwyniadau safonol, diddorol a hwyliog gan y 4 prif siaradwr: **Tegau Andrews**, Fiona Gannon, **Heini Gruffudd** a J.Elwyn Hughes. Cafwyd nawdd ar gyfer y gynhadledd gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, prosiect Hyfforddiant leithoedd a Chyfieithu TILT Prifysgol Bangor, a Llenyddiaeth Cymru.

Parhaodd poblogrwydd **yr e-weithdy cyfieithu** fel dull effeithiol o gynnig hyfforddiant i bobl yn eu hamser eu hunain, ond o fewn amserlen a strwythur. Caiff y rhai sy'n cymryd rhan sylwadau ar eu cyfieithiadau gan diwtoriaid sy'n gyfieithwyr proffesiynol ac yn arholwyr. Cynigiwyd yr e-weithdy cyfieithu ar lefelau Cyflawn a Sylfaenol ar wahân am y tro cyntaf yn dilyn y galw am ei gynnal ar y lefel uwch. Cynhaliwyd 8 e-weithdy cyfieithu yn ystod y flwyddyn a chymerodd 43 ran ynddynt.

Yn yr un modd, gwelwyd gwerth yn yr **Ymarfer CAP**, cynllun a rydd gyfle i bobl gyfieithu dau ddarn o'r un hyd a safon ag a geir yn y Prawf CAP yn y stiwdios lle cynhelir y profion. Mae'n gyfle iddynt ymgyswddo â threfniadau a gofynion y Prawf CAP, a chael sylwadau beirniadol ac adeiladol gan diwtor a thrafodaeth ar y cyfieithu. Cymerodd 14 o bobl ran yn y cynllun hwn.

Yn ystod y flwyddyn dechreuodd y gwaith o lunio **cynllun Datblygu Proffesiynol Parhaus** i aelodau'r Gymdeithas.



4. Cynnal perthynas â sefydliadau Addysg Uwch

Parhaodd y Gymdeithas i gynnal ei pherthynas agos â'r **Coleg Cymraeg Cenedlaethol** wrth i'r Coleg gydnabod bod cyfieithu'n faes pwysig ac yn faes y mae'n awyddus i'w gefnogi.

Roedd y Prif Weithredwr yn aelod o Fwrdd Prosiect Astudiaethau Cyfieithu'r Coleg, ac yr oedd Heini Gruffudd hefyd yn aelod ohono.

Roedd y Gymdeithas yn bartner allweddol yn y Dystysgrif Ôl-raddedig mewn Cyfieithu ar y Pryd gan **Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant**, y cymhwyster cyntaf i'w gynnig mewn cyfieithu ar y pryd Cymraeg/Saesneg ac un sy'n cynnig cyfle i ennill cymhwyster academiaidd sy'n bodloni anghenion y proffesiwn/diwydiant cyfieithu. Rydym yn llongyfarch pob un o'r 5 myfyriwr cyntaf a gofrestrodd ar ennill eu Tystysgrifau yn haf 2013.

Bu cysylltiadau agos â **Prifysgol Bangor**. Daeth cyfnod y Gymdeithas yn noddi PhD Dawn Wooldridge i ben ym mis Tachwedd 2013. 'Proffilio gwallau: astudiaeth o sut mae darpar gyfieithwyr Saesneg-Cymraeg yn cyfieithu' oedd pwnc ei hymchwil. Roedd y PhD yn rhan o'r cynllun KESS a gefnogir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru. Mae'r Gymdeithas yn parhau i gynnal gwefan y prosiect 'Diwyllianau cyfieithu: Rhwydwaith ymchwil cyfieithu', prosiect y cawsai Ysgol Ieithoedd Modern Prifysgol Bangor grant gan Gyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau (yr AHRC) i'w redeg.

5. Cynnal cysylltiadau â chyrff a sefydliadau

Parhaodd y gwaith o **gynrychioli'r Gymdeithas** ar sawl pwyllgor, yn eu plith Grŵp Hyrwyddo'r Gymraeg (grŵp y mae Uned y Gymraeg yn Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am ei gydlynw a'i weinyddu), Bwrdd Prosiect Rhannu Adnoddau Cyfieithu Llywodraeth Cymru, Rhwydiaith, a grŵp llywio Prosiect Trawsffiniol Mentrau Iaith y Gogledd (prosiect y mae Cynllun Cyfieithu Cymunedol yn rhan ohono ac a gaiff ei ariannu gan y Cynllun Datblygu Gwledig).

Parhaodd y berthynas rhwng y Gymdeithas a **Thŷ Cyfieithu Cymru a Thŷ Newydd Llanystumdwy**. Unwaith eto, y Gymdeithas a noddodd y Ffon Farddol a roddir i enillydd yr Her Gyfieithu. Yr her yn 2013 oedd cyfieithu o'r Sbaeneg i'r Gymraeg dair cerdd gan y bardd o Giwba, Víctor Rodríguez Núñez. Yr enillydd oedd Mererid Hopwood, a chyflwynwyd y Ffon Farddol iddi mewn seremoni ar stondin Prifysgol Aberystwyth yn yr Eisteddfod Genedlaethol gan ein Cadeirydd ar y pryd, Berwyn Prys Jones.

Cydweithiodd y Gymdeithas â sawl sefydliad cyhoeddus er lles a datblygiad y proffesiwn, gan gynnwys Gwasanaeth Cyfieithu Llywodraeth Cymru, Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi'r Cynulliad, Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi, a nifer o sefydliadau cyhoeddus.

Ym mis Chwefror 2014 roedd y Prif Weithredwr yn un o'r siaradwyr yn y Senedd yng Nghaerdydd pan lansiodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ei adnodd cyfieithu peirianyddol newydd, a ddatblygwyd ar y cyd â Microsoft.

Parhaodd y Gymdeithas i gynnal ei pherthynas â'r ITI, a hefyd â chyfarwyddiaethau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd y Comisiwn Ewropeaidd.



Mae'r Gymdeithas yn aelod o: FIT (Fédération Internationale des Traducteurs / International Federation of Translators), Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Mantell Gwynedd, y Sefydliad Materion Cymreig, Mudiadau Dathlu'r Gymraeg a Dyfodol i'r Iaith.

6. Darlith Goffa Hedley Gibbard

Daeth cynulleidfawerthfawrogl i wrando ar T.James Jones yn traddodi Darlith Goffa Hedley Gibbard yn Eisteddfod Genedlaethol Sir Ddinbych a'r Cyffiniau. 'Trosi Dylan' oedd teitl ei ddarlith. Ynddi bu'n trafod trosi 'Under Milk Wood' a rhai cerddi eraill gan Dylan Thomas a darllenodd ddetholion o'i gyfieithiadau. Cafwyd nawdd at y ddarlith gan Lenyddiaeth Cymru.

7. Comisiynydd y Gymraeg: ariannu gweithgareddau rheoleiddio

Ym mis Awst 2013 daethpwyd i gytundeb â'r Comisiynydd ynghylch y cynllun busnes am y 3-blynedd hyd at 31 Mawrth 2016. Lluniwyd y cynllun busnes ar sail y 10 gweithgaredd rheoleiddio a restrwyd yn llythyr y Comisiynydd dyddiedig 19 Rhagfyr 2012, sef:

- Cynnal cofrestr o gyfieithwyr proffesiynol gan fynnu eu bod yn ymddwyn yn ôl cod ymddygiad y Gymdeithas.
- Cynnal a datblygu'r lefelau aelodaeth e.e. Sylfaenol, Cyflawn, Corfforaethol, Myfyriwr, ac ati.
- Ymchwilio i gwynion yn erbyn aelodau'r Gymdeithas a chymryd unrhyw gamau disgyblu a allai ddeillio o hynny, gan gynnwys diarddeliad.
- Sicrhau cydnabyddiaeth gyffredinol i gyfieithwyr cymwysedig, yn enwedig ymysg y cyrff hynny y bydd gofyn iddynt gydymffurfio â gofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.
- Marchnata a chynrychioli'r proffesiwn.
- Darparu cyngor ynghylch cyrsiau cyfieithu a ddarperir gan sefydliadau addysgiadol.
- Cydweithio â sefydliadau addysgiadol i sefydlu cynllun Datblygu Proffesiynol Parhaus i adlewyrchu ymroddiad at godi safonau.
- Monitro cydymffurfiaid aelodau â chynllun Datblygu Proffesiynol Parhaus gorfodol.
- Cynorthwyo aelodau i ddatblygu eu busnesau.
- Cynghori Comisiynydd y Gymraeg ynglŷn â materion yn ymwneud ag ansawdd cyfieithu.

Roedd y cynllun busnes hefyd yn cymryd i ystyriaeth y ffaith fod y Comisiynydd wedi rhoi gwybod nad oedd cynlluniau ganddi i ariannu'r Gymdeithas o 31 Mawrth 2016 ymlaen, ac y dylai'r cynllun busnes ddangos sut y bydd y Gymdeithas yn hunangynhaliol wedi hynny.

Ar sail y cynllun busnes mae'r Comisiynydd yn ariannu gweithgareddau rheoleiddio'r Gymdeithas. Telir y grant yn benodol ar gyfer gweithgareddau sy'n galluogi'r Gymdeithas i ymgymryd â'r 10 gweithgaredd rheoleiddio a nodir uchod. Pennir targedau blynyddol cyffredinol, a fesul chwarter cytunir ar weithgareddau manylach sydd ynghlwm â hwy. Cynhelir adolygiad chwarterol o gyflawniad, a dim ond ar sail dangos cynnydd derbyniol bob chwarter yr awdurdodir y taliadau chwarterol.



8. Y sefyllfa ariannol

Cafwyd grant o £87,359 gan Gomisiynydd y Gymraeg tuag at weithgareddau rheoleiddio'r Gymdeithas.

Y brif ffynhonnell arall o incwm i'r Gymdeithas oedd y taliadau aelodaeth, a chafwyd £43,084 o'i gymharu â £43,542 yn 2012-13.

Roedd yr incwm a gafwyd felly'n fodd i'r Gymdeithas barhau i gyflogi 2.6 aelod o staff parhaol, yn ogystal â chyflawni'r gwaith a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn.

Dengys y cyfrifon waged am y flwyddyn o £17,027.

Paratowyd yr adroddiad ariannol gan Owain Bebb a'i Gwmni, Caernarfon.

9. Rheoli'r Gymdeithas

9.1 Mae Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru Cyf yn gwmni cyfyngedig trwy warant. Fe'i cofrestrwyd yng Nghymru, rhif 4741023.

Rheolir y Gymdeithas gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr. Aelodau Bwrdd y Cyfarwyddwyr yn ystod y flwyddyn oedd:

David Bullock, Ann Corkett, Fiona Gannon, Heini Gruffudd, Wyn Hobson, Berwyn Prys Jones, Dewi Morris Jones a Mary Jones.

Croesawyd Bethan Mair Evans, Catherine Jones, Claire Richards a Lowri Roberts yn gyfarwyddwyr newydd ym mis Medi 2013.

Ymddeolodd Berwyn Prys Jones fel Cadeirydd y Gymdeithas yng Nghyfarfod Blynyddol 2013 ac etholwyd Mary Jones yn olynydd iddo.

Cyfarfu Bwrdd y Cyfarwyddwyr ar 9 Mai 2013, 31 Gorffennaf 2013, a 27 Ionawr 2014.

9.2 Mae gan y Gymdeithas y byrddau a'r pwyllgorau a ganlyn:

Bwrdd Arholi Testunau/Cofrestr Marcwyr Arholiadau Testun

Roedd y canlynol yn arholwyr ac yn farcwyr yr Arholiadau Aelodaeth (Testun) yn ystod y flwyddyn, ac yn eu tro yn aelodau o'r Bwrdd Arholi Testunau pan oeddynt yn marcio: Fiona Gannon (Prif Arholwr), Mary Jones (Dirprwy Arholwr), Meinir McDonald (Dirprwy Arholwr), Catrin Beard, Ann Corkett, Meg Elis, Heini Gruffudd, Wyn Hobson, Berwyn Prys Jones, Dewi Morris Jones, Sylvia Prys Jones, Glenys Roberts, Catrin Small, Megan Hughes Tomos, Heledd Williams, Tegwen Williams a Gareth Wood.



Y Bwrdd Cyfieithu ar y Pryd

Aelodau'r Bwrdd Cyfieithu ar y Pryd yn ystod y flwyddyn oedd:

Wyn Hobson (Cadeirydd), Delyth Davies, Lynwen Davies, Siôn Edwards, Rhys George, Catrin Howells Lloyd, Hywel G. Hughes, Rhian Huws, Aled M. Jones, Siân Eleri Jones, Ann Llwyd, Siôn Aled Owen, Mair Parry-Jones ac Angharad Watson.

Cyfarfu'r Bwrdd Cyfieithu ar y Pryd unwaith, ar 14 Chwefror 2014.

Y Pwyllgor Aelodaeth a Safonau Proffesiynol

Aelodau'r Pwyllgor Aelodaeth a Safonau Proffesiynol yn ystod y flwyddyn oedd:

David Bullock (Cadeirydd), Delyth Davies, Fiona Gannon, Berwyn Prys Jones, Claire Richards a Lowri Roberts.

Cyfarfu'r Pwyllgor ar 27 Mawrth 2014.

10. Gair i gloi gan y Prif Weithredwr, Geraint Wyn Parry

Hoffwn ddiolch i Nia Wyn Jones a Judith Kaufmann am eu gwaith caled a'u hymroddiad i'r Gymdeithas, ac i Mary Jones, Cadeirydd newydd y Gymdeithas, am ei chefnogaeth gyson. Diolch hefyd i holl aelodau Bwrdd y Cyfarwyddwyr, y Bwrdd Arholi Testun, y Bwrdd Cyfieithu ar y Pryd a'r Pwyllgor Aelodaeth a Safonau Proffesiynol am eu ffyddlondeb i'r pwyllgorau hyn ac am eu doethineb wrth gyflawni eu gwaith. Mae'r cydweithio braf rhwng y staff, y cyfarwyddwyr ac aelodau'r pwyllgorau yn un o gryfderau mawr y Gymdeithas, a hir y parhaed hynny.

Fel y nodwyd yn yr adroddiad hwn, ymddeolodd Berwyn Prys Jones fel Cadeirydd y Gymdeithas ym mis Medi 2013, swydd a ddaliodd gyda chryn anrhydedd ac urddas am dros chwarter canrif. Hoffwn innau hefyd roi teyrnged i Berwyn am yr arweiniad cadarn a phwylllog a gefais ganddo, am ei gefnogaeth a'i anogaeth barhaol, ei gyngor doeth, heb anghofio ei ffraethineb a'i hiwmor. Mae dyled y Gymdeithas a'r proffesiwn cyfieithu yng Nghymru yn fawr iddo, a diolchwn iddo am gyfraniad cwbl nodedig wrth hyrwyddo a datblygu proffesiwn sy'n agos at ei galon.

